

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Hen Destament
Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH

I Brenhinoedd 17: 1-7



ADNOD
ALLWEDDOL

I Brenhinoedd 17: 5

*Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnod hon.*

Story 1 Elias yn ufudd i Dduw

Pan oedd Elias yn byw yn Israel, roedd ganddyn nhw frenin drwg iawn. Ahab oedd ei enw. Ahab oedd y brenin gwaethaf a gafodd Israel erioed. Roedd ei wraig, Jesebel, yn un ddrwg iawn hefyd! Roedd Duw yn grac iawn am eu bod nhw mor ddrwg.



C 1. Ysgrifennwch enw'r brenin. A _____

C 2. Ysgrifennwch enw'r frenhines. J _____

Dewisodd Duw Elias i fod yn broffwyd iddo. Rhoddodd Duw neges i Elias i'w rhoi i'r brenin drwg. Dywedodd Duw wrth Elias am bethau oedd yn mynd i

ddigwydd yn y dyfodol.

Un diwrnod, anfonodd Duw Elias at Ahab. Roedd rhaid i Elias fod yn ddewr iawn a dweud wrth y brenin bod Duw yn mynd i'w gosbi ef a'i wlad am fod mor ddrwg. Bu Elias yn ufudd i Dduw a dywedodd wrth y brenin beth oedd Duw wedi'i ddweud.

Ni fyddai gwllith na glaw yn y wlad am amser hir iawn.




C Llanwch y bylchau.

1. Elias oed p ___ ff ___ d Duw.
2. Dywedodd Elias wrth y brenin Ahab na fyddai g ___ th na g ___ am amser hir.
3. Roedd Duw yn mynd i g ___ Ahab am fod yn ddrwg.

4

Roedd y Brenin Ahab yn flin iawn ag Elias am roi neges fel hyn iddo. Dywedodd Duw wrth Elias am fynd i guddio a dyna a wnaeth. Aeth Elias i le unig ac roedd yn byw yno ar lan nant.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau isod i weld beth oedd enw'r nant.




4

Roedd Duw'n gofalu am Elias. Bob bore a bob nos, roedd adar mawr du o'r enw cigfrain yn dod ato. Roedden nhw'n dod â chig a bara iddo. Pan oedd syched arno, roedd yn yfed dŵr clir o'r nant. Roedd Elias yn profi mai'r peth gorau i'w wneud mewn bywyd yw trystio Duw.

C Rhowch (✓) ar ôl y brawddegau sy'n gywir a (X) ar ôl y rhai anghywir.

1. Roedd Duw yn gofalu am Elias pan oedd yn cuddio.
2. Daeth y brain â bwyd i Elias ddwywaith y dydd.
3. Daeth y cigfrain â bara a chig i Elias.
4. Roedd Elias yn yfed dŵr o'r nant.

8



Ymhen amser, sychodd y nant a doedd dim golwg am law. Ond roedd gan Dduw gynllun newydd i ofalu am Elias. Roedd y proffwyd Elias yn gwybod y gallai ddibynnu ar Dduw i'w helpu er bod bwyd yn brin trwy'r wlad i gyd.



DARLLENWCH

I Brenhinoedd 17:8-24

ADNOD
ALLWEDDOL

I Brenhinoedd 17:14


Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnod hon.

Stori 2 Elias yn trystio Duw

Pan sychodd y nant, anfonodd Duw Elias i ddinas o'r enw Sareffta. Roedd Duw wedi dweud wrth wraig weddw a oedd yn byw yno am ofalu amdano.

Pan gyrhaeddodd, gofynnodd Elias i'r wraig weddw am ddiod o ddŵr a thamaid o fara i'w fwyta.

“Does gen i ddim bara,” meddai'r wraig. “Dim ond ychydig bach o flawd sydd gen i ar ôl ac rwy'n mynd i wneud fy nhorth olaf o fara. Ar ôl i fy mab a minnau fwyta'r dorth, byddwn yn marw o eisiau bwyd.” Dyna drist! Doedd dim crydau'n tyfu trwy'r wlad i gyd am nad oedd yn bwrw glaw ac felly doedd gan y bobl ddim



i'w fwyta.

.

C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir:-

1. Os yw g ___ r rhywun wedi marw, mae'n cael ei galw'n wraig

dd w e w _____

2. Gofynnodd Elias i'r wraig weddw am ddiod o r ___ dd _____ a thamaid o **a f r a** _____ i'w fwyta.

3. Dim ond ychydig bach o **d a l w f** _____ oedd gan y wraig ar ôl.

“Gwranda arna i,” meddai Elias. “Gwna dorth i mi gyntaf.”

Wedyn meddai “Mae Duw wedi addo na ddaw dy flawd na dy olew i ben cyn iddo anfon glaw eto.”

Beth ddylai'r wraig ei wneud? Gallai fod yn hunanol a chadw'r cyfan iddi hi ei hunan neu gallai rannu'r bara â'r proffwyd a thrystio Duw i ofalu amdani hi a'i

mab tan ddiwedd y newyn.

Roedd hi'n wraig ddoeth. Mae'r Beibl yn dweud:

“Gwnaeth hi yn ôl gair Elias”

4


Lliwch y geiriau.

Mae Duw eisiau i ni gredu ei eiriau hefyd. Os ydym yn credu go iawn yn lesu Grist, rydym yn cael byw am byth yn y Nefoedd. (Darllenwch Ioan 3:16)
Cadwodd Duw ei addewid i'r wraig weddw. Bu hi'n gofalu am Elias am amser hir ac roedd bob amser digon o flawd ac olew ganddi i wneud bara! Mae'n siwr ei bod hi'n rhyfeddu wrth feddwl pa mor dda yw Duw!

C Rhowch (✓) neu (X) ar ôl y brawddegau hyn:-

1. Doedd dim digon o flawd gan y wraig yn ystod y sychder.
2. Dysgodd y wraig pa mor dda yw Duw.

4



Un diwrnod, dysgodd y wraig rywbeth arall am nerth Duw. Aeth ei mab hi'n sâl a marw. Cariodd Elias ei gorff ef i'w ystafell a'i roi ar y gwely. Gorweddodd drosto dair gwaith a gweddïo ar Dduw i'w wneud yn fyw eto. Atebodd Duw weddi Elias. Daeth y bachgen yn ôl yn fyw. Dyna Dduw da!

C Defnyddiwch y geiriau hyn i ateb y cwestiynau:-

Elias y bachgen y wraig weddw Duw

1. Pwy aeth yn sâl a marw?
2. Pwy weddiodd ar Dduw?
3. Pwy roddodd fywyd i'r bachgen?
4. Pwy ddysgodd mai un da yw Duw?

4



DARLLENWCH

I Brenhinoedd 18: 1-2
& 16-46



ADNOD

ALLWEDDOL

I Brenhinoedd 18: 39

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnod hon.

Stori 3 Elias yn gwasanaethu Duw

Doedd dim glaw am dros dair blynedd. Doedd y cnydau ddim yn tyfu ac roedd y glaswellt yn gwywo. Roedd yr anifeiliaid yn marw. Un diwrnod, dywedodd Duw wrth Elias am fynd i weld y Brenin Ahab. Dywedodd y brenin mai Elias oedd wedi achosi'r holl drafferth.

“Nid fy mai i yw e,” meddai Elias. “Ti, y brenin Ahab, sydd wedi achosi'r drafferth. Rwyd ti wedi torri rheolau Duw ac wedi addoli duw ffug o'r enw Baal.”



C Atebwch y cwestiynau isod:-

1. Am faint o amser doedd dim glaw? _____ blynedd
2. Dywedodd y Brenin Ahab mai ar hwn oedd y bai. E _____
3. Pwy oedd wedi torri rheolau Duw? A _____



Penderfynodd Elias ei bod yn bryd dangos i'r bobl mai dim ond un gwir Dduw sydd. Dywedodd wrth y Brenin am ddod â phroffwydi Baal gydag ef i Fynydd Carmel. Yno, bydden nhw'n codi dwy allor, un i Baal ac un i'r Arglwydd. Yna, bydden nhw'n rhoi bustach yn aberth ar y ddwy allor. Byddai proffwydi Baal yn gweddio ar eu duw nhw a byddai Elias yn gweddio ar yr Arglwydd. Pe bai tân yn dod o'r Nef ac yn llosgi aberth Baal, bydden nhw'n gwybod mai Baal oedd y gwir Dduw. Ar y llaw arall, pe bai tân yn llosgi aberth yr Arglwydd, bydden nhw'n gwybod mai'r Arglwydd oedd y gwir Dduw.

C Rhowch gylch o gwmpas y gair **CYWIR** sydd rhwng y cromfachau:-



1. Adeiladwyd (**tair, dwy, pedair**) allor o (**goed, wair, gerrig**)
2. Rhoddwyd (**oen, gafr, bustach**) ar bob allor.
3. Roedden nhw eisiau gweld ai Baal ynteu'r Arglwydd fyddai'n ateb trwy anfon (**tân, glaw, daeargryn**)

8

Pan oedd proffwydi Baal yn barod, ddechreuon nhw weiddi ar Baal. Buon nhw'n gweiddi am oriau ond chawson nhw ddim ateb. Yna, dyma nhw'n gweiddi'n uwch ac yn dechrau neidio o gwmpas yr allor ond ddaeth dim tân.

Yna, daeth tro Elias. Pan oedd ei allor ef yn barod, gofynnodd i'r bobl arllwys 12 llond llestr o ddŵr drosti. Yna, gweddiodd yn dawel ar yr Arglwydd ac anfonodd yr Arglwydd dân i losgi'r cyfan oedd ar yr allor a hyd yn oed y dŵr oedd o'i chwmpas.

C Ysgrifennwch y geiriau hyn ger yr allor gywir.



gweiddi'n uchel

dŵr

dim tân

tân

4

Pan welodd y bobl beth a ddigwyddodd, dyma nhw'n plygu i lawr ac yn dweud:

“Yr Arglwydd sydd
Dduw”



Lliwiwch y geiriau.

Roedd hyn yn newyddion da i Dduw ac Elias. Dechreuodd llawer o bobl addoli'r Arglwydd eto a throi eu cefn ar y duwiau ffug. Ar ddiwedd y dydd, dechreuodd fwrw glaw yn drwm. Roedd y sychder wedi dod i ben. Mae llawer o bobl yn addoli 'duwiau ffug' heddiw. Ydych chi eisiau addoli'r Dduw go iawn? Gall ei Fab Ef, Iesu Grist, fod yn ffrind ac yn waredwr i chi.

2



DARLLENWCH

I Brenhinoedd 19: 1-16

ADNOD
ALLWEDDOL

I Brenhinoedd 18: 39

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnod hon.

Stori 4 Elias yn Ofnus

Roedd y Frenhines Jesebel, gwraig Ahab, yn flin iawn pan glywodd beth ddigwyddodd ar Fynydd Carmel. (Stori 3). Roedd yn arbennig o grac pan glywodd bod Elias wedi gorchymyn bod holl broffwydi Baal yn cael eu lladd. Anfonodd neges at Elias yn dweud y byddai'n trefnu iddo fe gael ei ladd cyn pen 24 awr.



C Atebwch y cwestiynau hyn.

1. Pwy oedd gwraig y Brenin Ahab? J ___ s ___ b ___ l
2. Pwy oedd wedi gwylltio wrth Elias? ___ e ___ e ___ e ___
3. Pwy wnaeth fygwth lladd Elias? ___ ___ ___ ___ el

6

Beth ddylai Elias ei wneud? Roedd e mor ofnus, rhedodd i ffwrdd i ardal unig iawn. Eisteddodd o dan goeden a gofyn i Dduw am gael marw! Druan ag Elias. Doedd e ddim yn cofio pa mor gryf oedd Duw. Mae'r Adnod Allweddol yn dweud y dylem ni ...

“ymddiried
yn Nuw bob
amser.”

5

Lliwch y geiriau.

Roedd Duw yn gwybod bod angen bwyd a gorffwys ar Elias. Gadawodd i Elias gysgu o dan y goeden am dipyn ac yna anfonodd angel i gyffwrdd ag ef. Pan ddeffrodd Elias, gwelodd fara a dŵr gerllaw. Ar ôl iddo fwyta ac yfed y rhain, aeth yn ôl i gysgu. Dihunodd yr angel ef yr ail dro ac, unwaith eto, cafodd Elias fwynhau bwyd a diod eto. Wedyn, roedd yn barod i deithio ymlaen eto.

C Rhowch ✓ neu X i ddangos pa rai o'r brawddegau hyn sy'n gywir a pha rhai sy'n anghywir.

1. Gofalodd Duw am Elias, hyd yn oed pan oedd yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth Jesebel.
2. Rhoddodd Duw bysgod a ffrwythau i Elias eu bwyta.
3. Cafodd dau bryd o fwyd o dan y goeden.
4. Wedi iddo gysgu a bwyta, roedd yn ddigon cryf i fynd ymlaen â'i daith.

4



Ar ddiwedd y daith, aeth Elias i orffwys mewn ogof. Pan oedd yno, daeth g wynt cryf, daeargryn a thân. Ond doedd Duw ddim yn yr un o'r rhain. Wedyn, daeth llais bach, distaw. Roedd Duw yn siarad â'i broffwyd yn y llais bach hwn. "Beth wyt ti'n ei wneud yma, Elias?" gofynnodd yr Arglwydd. "Mae dy bobl wedi dy wrthod di ac maen nhw'n addoli duwiau ffug. Maen nhw wedi lladd dy broffwydi ac nawr rydw i mewn perygl," meddai Elias. Y diwrnod hwnnw, rhoddodd Duw nifer o dasgau newydd i Elias eu gwneud. Un o'r tasgau oedd dod o hyd i ddyn ifanc o'r enw Eliseus a'i eninio i fod yn broffwyd yn ei le.

C Llanwch y bylchau:-

1. Siaradodd Duw ag Elias mewn ll _____ b _____ t _____.
2. Byddai E _____ yn dod yn broffwyd yn lle E _____.

Roedd Elias yn ddyn da. Roedd ei fywyd bron ar ben. Roedd wedi bod yn was da i Dduw er bod y bobl o'i gwmpas yn ddrwg. Helpodd Duw ef i fod yn ffyddlon iddo. Gall Duw ein helpu ni hefyd os gwnawn ni ymddiried ynddo bob amser.

5

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120